

Cydsyniadau, Cofrestrïadau, Trwyddedau ac Awdurdodiadau Cyfoeth Naturiol Cymru		
Math o drwydded, cydsyniad, awdurdodiad, cofrestrïad	Cyfnod penderfynu brasgywir	Trosolwg o ddyletswydd gyfreithiol, enghreifftiau o weithgareddau ac enghreifftiau o ganiatadau eraill sydd fel arfer yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn
Trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop	30 diwrnod gwaith	Mae Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn gynwysedig yn Adran 53 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) er mwyn eu gwarchod rhag niwed. Mae enghreifftiau o drwyddedau o'r fath yn cynnwys trwyddedau ymdrin ag ystlumod neu amhariad posibl ar greaduriaid morfilaidd.
Cydsyniad SoDdGA	Hyd at bedwar mis	Yn ôl Adran 28(E) Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, mae'n ofynnol i berchnogion a deiliaid SoDdGA hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru os ydynt yn bwriadu cynnal neu ganiatáu gweithrediad sydd wedi ei nodi yn yr hysbysiad SoDdGA i fod yn debygol o niweidio'r nodwedd arbennig, e.e. defnyddio chwynladdwyr mewn neu ger dŵr neu chwistrellu chwynladdwyr o'r awyr.
Trwydded Gwastraff (Pwrpasol, Rheolau Safonol, Amrywiad)	Hyd at bedwar mis neu hwy os yw'n gynhennus neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol sylweddol	Gofyniad dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, trwydded sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau sy'n trin, cadw neu waredu gwastraff dros drothwy penodol. Mae enghreifftiau o'r mathau o safleoedd sydd angen trwydded yn cynnwys gorsafoedd trosglwyddo, iardiau sgrap, a safleoedd compostio.
Eithriadau gwastraff	Cofrestrïad	Eithriad gwastraff yw gwaith trin, cadw neu waredu gwastraff sydd wedi ei eithrio rhag bod angen trwydded amgylcheddol dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Gall eithriadau gynnwys defnyddio, trin, gwaredu a storio gwastraff. Caiff terfynau penodol eu pennu ym mhob eithriad. Mae enghreifftiau'n cynnwys defnyddio bwndeli o deiars mewn gwaith adeiladu, didoli gwastraff cymysg a storio slwtsh.
Defnyddio Offer Symudol	25 diwrnod gwaith	Dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gweithgarwch taenu ar y tir neu adfer tir yn gofyn am drwydded a defnydd wedyn bob tro yr ymgwymerir â'r gwaith.

Trwydded Gosod (Pwrpasol, Rheolau Safonol, Amrywiad)	Hyd at bum mis neu hwy os yw'n gynhennus neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol sylweddol	Gweithgareddau Atodlen 1 dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae gweithgareddau'n cynnwys sment a chalch, bwyd a diod, gorsafoedd pŵer, cemegion, ffermio dwys ac ati. Mae gweithgareddau nad ydynt yn dod dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn cynnwys trwyddedu rhywogaethau.
Adnoddau gwastraff mwyngloddio Categori A	Pedwar mis neu hwy os yw'n gynhennus neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol sylweddol	<p>Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Mwyngloddio wedi ei rhoi ar waith yn Atodlen 20 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae prif adrannau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 yn berthnasol yn gyffredinol ond, trwy Reoliad 35, mae Atodlen 20 yn cynnwys y darpariaethau penodol y mae angen eu cynnwys, yn bennaf i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Mwyngloddio. {Sylwer bod hon bellach wedi cael ei hailenwi'n Gyfarwyddeb Rheoli Gwastraff o Ddiwydiannau Echdynol (sy'n berthnasol i echdynnu olew a nwy yn bennaf)}. Mae Atodiad III y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio'n rhoi meini prawf ar gyfer Categori A fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai methiant neu weithrediad gwallus arwain at ddamwain fawr; • Mae'n cynnwys gwastraff peryglus uwchben trothwy penodol; • Mae'n cynnwys sylweddau peryglus uwchben trothwy penodol. <p>Dyma'r diffiniad cyfreithiol o safle Categori A:</p> <p>Mae Atodiad III o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio'n nodi y dylai cyfleuster gwastraff gael ei ddosbarthu i Gategori A os:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gallai methiant neu weithrediad gwallus, e.e. llwyth yn cwmpo neu argae'n ffrwydro, arwain at ddamwain fawr, ar sail asesiad risg sy'n ystyried ffactorau fel maint presennol y cyfleuster gwastraff neu ei faint yn y dyfodol, ei leoliad a'i effaith amgylcheddol; neu 2. Mae'n cynnwys gwastraff sy'n cael ei ystyried i fod yn y dosbarth peryglus uwchben trothwy penodol; neu

		<p>3. Mae'n cynnwys sylweddau neu gymysgeddau sy'n cael eu hystyried i fod yn y dosbarth peryglus uwchben trothwy penodol.</p> <p>Mae angen trwyddedau gollwng i ddŵr yn aml mewn cydweithrediad â thrwyddedau gwastraff mwyngloddio a thrwyddedau rhywogaethau hefyd gan fod systemau rheoli dŵr wyneb a ddefnyddir mewn mwyngloddiau a chwareli'n gynefinoedd sy'n cael eu ffafrio gan fadfallod dŵr cribog.</p>
Gweithrediadau Gwastraff Mwyngloddio (hefyd yn cynnwys Cyfleusterau Gwastraff Mwyngloddio)	Pedwar mis (tri mis i drwyddedau rheolau safonol)	Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff Mwyngloddio wedi ei rhoi ar waith yn Atodlen 20 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gweler yr adran uchod). Mae'n cynnwys Rheolau Safonol ar gyfer gwastraff echdynnol anadweithiol, Haen 2 pwrpasol ar gyfer gwastraff echdynnol anadweithiol gyda gollyngiad integredig, gweithrediadau gwastraff mwyngloddio nad ydynt yn anadweithiol nac yn beryglus (gyda neu heb gyfleuster gwastraff mwyngloddio), a gweithrediadau gwastraff mwyngloddio peryglus (gyda neu heb gyfleuster gwastraff mwyngloddio). Mae angen trwyddedau gollwng i ddŵr yn aml mewn cydwethrediad â thrwyddedau gwastraff mwyngloddio a thrwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop hefyd gan fod systemau rheoli dŵr wyneb a ddefnyddir mewn mwyngloddiau a chwareli'n gynefinoedd sy'n cael eu ffafrio gan fadfallod dŵr cribog. Mae trwyddedau dŵr daear, trwyddedau rheoli sylweddau ymbelydrol, a thrwyddedau gosod ar gyfer ffaglu nwy yn gysylltiedig â ffracio.
Trwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer sylweddau ymbelydrol (safle nad yw'n niwclear)	Hyd at bedwar mis	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (a oedd yn cael eu rheoli dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yn flaenorol). (Mae gan rai safleoedd awdurdodiadau Cydsyniad Sylweddau Ymbelydrol o hyd ond bydd trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn eu disodli'n raddol.)
Trwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer sylweddau ymbelydrol (safle niwclear)	Hyd at bedwar mis	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (a oedd yn cael eu rheoli dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yn flaenorol). Mae trwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol wedi disodli'r awdurdodiadau blaenorol.

System Fasnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd – pob math o gais	Dau fis	Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gyflenwi agweddau ar System Fasnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd (a roddir ar waith yn y DU trwy Reoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012) yng Nghymru. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gyflenwi holl weithgarwch trwyddedu a chydymffurfiaeth Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr cyfredol yng Nghymru (er enghraifft, trwyddedau, amrywiadau, archwiliadau ac ati), ac am roi sylw i ymholiadau gan gwsmeriaid ac asesu adroddiadau.
Cofrestriad Gwastraff Peryglus	Cofrestru wrth dalu	Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005 Os yw ymgeisydd yn cynhyrchu neu'n cadw gwastraff peryglus mewn unrhyw safle yng Nghymru a Lloegr, rhaid ei gofrestru bob blwyddyn, oni bai bod cyfanswm y maint yn llai na 500kg y flwyddyn neu fod y safle wedi ei eithrio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
Trwydded Ansawdd Dŵr (Pwrpasol, Rheolau Safonol, Amrywiad, Trosglwyddo, Ildio)	Hyd at bedwar mis	Gofyniad y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Er enghraifft, gwastraff masnachol a charthion wedi eu trin yn gollwng i ddŵr daear a dŵr wyneb, a dip defaid a phlaladdwyr i'r ddaear. Mae'n bosibl y bydd angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a chydysyniad SoDdGA i berchnogion/deiliaid. Os yw'r gweithgaredd yn tynnu >20m ³ /d o ddŵr, bydd angen trwydded tynnu dŵr, er enghraifft ar gyfer dŵr oeri neu fferm bysgod.
Trwydded Chwynladdwr	Deng diwrnod ar gyfer un syml, 13 wythnos ar gyfer un cymhleth	Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1995 (Rheoliadau Rheoli Plaladdwyr 1986, fel y'u diwygiwyd). Cytundeb i'r defnydd o blaladdwyr i reoli twf chwyn ger corff dŵr.
Eithriad Gollwng i Ddŵr	Cofrestru	Dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gellir eithrio rhai gweithgareddau gollwng i ddŵr rhag yr angen am drwydded amgylcheddol. Enghreifftiau, gollwng o danc carthion neu ollyngiad bach i ddŵr daear at ddibenion gwyddonol.
Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd	Dau fis* *Os yw cais am weithgarwch perygl llifogydd a allai arwain at effeithiau andwyol arwyddocaol ar yr amgylchedd, bydd angen i'r cais	Mae Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd yn berthnasol i waith mewn, dan, dros neu o fewn 8m o brif afon neu 16m o brif afon lanwol. Mae hefyd yn berthnasol o fewn 8m i waelod ased amddiffynfa llifogydd sy'n wynebu tua'r tir a gall y gofynion estyn y tu hwnt i 8m neu 16m os yw'n dal o fewn y gorlifdir. Mae'n tarddu o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac Is-ddeddfau Draenio Tir Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd angen Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd ar gyfer gweithgareddau parhaol a thros dro o fewn y cyfyngiadau uchod a byddant yn dueddol o gynnwys gweithgareddau fel pontydd, ceuffosydd, amddiffyn glannau, carthu, gollyngfeydd, ysgolion pysgod a gwasanaethau cyswllt,

	fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gyda chyfnod penderfynu o bedwar mis.	ymsg eiraill. Gellir cysylltu Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd hefyd gyda'r angen am drwyddedau eraill fel trwyddedau cronni a thynnu dŵr a thrwyddedau morol.
Awdurdodiad yn unol ag is-ddeddfau a wnaed dan Adran 20 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949	Ar sail achos unigol	Is-ddeddfau penodol ar gyfer amddiffyn gwarchodfeydd natur.
Trwyddedau dan Adran 8 Deddf Ceirw 1991	Ar sail achos unigol	Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru'r grym i roi trwyddedau penodol yn unig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn caniatáu trwyddedau. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwydded i unrhyw unigolyn, sy'n caniatáu i'r unigolyn hwnnw dynnu ceirw o un ardal i un arall neu i gymryd ceirw'n fyw at ddibenion gwyddonol neu addysgol.
Trwydded dan Adran 10 Deddf Gwarchod Moch Daear 1992	Ar sail achos unigol	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n awdurdod trwyddedu dan Ddeddf 1992. Rydym yn gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau at y dibenion canlynol: <ol style="list-style-type: none"> 1. At ddibenion gwyddonol neu addysgol neu er cadwraeth moch daear, i ladd neu gymryd moch daear neu i amharu ar frochfa; 2. At ddibenion unrhyw erddi neu gasgliadau sŵolegol, i gymryd, meddu ar neu werthu moch daear; 3. At ddibenion modrwyo a nodi, i gymryd neu nodi moch daear neu osod dyfais nodi arnyn nhw; 4. At ddibenion unrhyw ddatblygiad fel y'i diffinnir yn Adran 55(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i darfu ar frochfa; 5. At ddiben gwarchod heneb, neu gynnal ymchwiliad archeolegol ar heneb, sydd wedi'i rhestru dan Adran 1 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1970, i darfu ar frochfa; 6. At ddiben ymchwilio a oes trosedd wedi'i chyflawni neu gasglu tystiolaeth ar gyfer unrhyw achos gerbron unrhyw lys, i darfu ar frochfa; ac 7. Er mwyn rheoli llwynogod gyda'r nod o warchod bywyd gwyllt neu anifeiliaid hela sydd wedi'u rhyddhau.

		<p>Yn ogystal â'r rhain, mae gan Lywodraeth Cymru awdurdod dan Adran 10(2) a (3) y Ddeddf i roi trwyddedau i:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Darfu ar frochfeydd moch daear: <ul style="list-style-type: none"> ○ At ddiben unrhyw weithgaredd amaethyddol neu goedwigaeth; ○ At ddiben unrhyw waith i gynnal a chadw neu wella cwrs dŵr sy'n bodoli'n barod neu waith draenio, neu i adeiladu gwaith newydd sydd ei angen i ddraenio tir, yn cynnwys gwaith amddiffyn yn erbyn dŵr y môr neu ddŵr llanw; ac ○ At ddiben rheoli llwynogod er mwyn gwarchod da byw ac anifeiliaid hela mewn corlannau. 2. Lladd neu gymryd moch daear neu i amharu ar eu brochfeydd: <ul style="list-style-type: none"> ○ At ddiben atal clefyd rhag lledaenu; ac ○ At y diben o atal difrod difrifol i dir, cnydau, dofednod neu eiddo o unrhyw fath arall.
Trwydded dan Adran 16 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	30 diwrnod gwaith	<p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi trwyddedau at ddibenion penodol, er mwyn i ymgeiswyr allu ymgymryd â gwaith cyfreithlon heb dorri'r gyfraith. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwyddedau at y dibenion canlynol (Adran 16 (1) o'r Ddeddf):</p> <ul style="list-style-type: none"> • At ddibenion gwyddonol, ymchwil neu addysgol • Modrwyo neu farcio, neu archwilio modrwyau neu farciau • Cadwraeth adar gwyllt • Ailboblogi / ai gyflwyno adar gwyllt • Cadwraeth fflora a ffawna • Gwarchod unrhyw gasgliad o adar gwyllt • Hebogyddiaeth a magu adar • Arddangosfa / cystadleuaeth gyhoeddus • Tacsidermi • Tynnu lluniau • Iechyd y cyhoedd, diogelwch y cyhoedd, diogelwch yn yr awyr • Atal clefyd rhag lledaenu • Atal niwed difrifol i gnydau, pysgodfeydd ac ati
Trwydded dan Adran 10 Deddf Gwarchod Morloi 1970	Ar sail achos unigol	Y grym i roi trwyddedau.

Cyfarwyddyd dan Adran 24, 25 neu 26 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	Hyd at 16 wythnos	Rheolaeth tir; osgoi perygl tân neu ddifrod; cadwraeth natur a threftadaeth; cyfyngiadau ac eithriadau Mynediad Agored.
Cydsyniad dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	Hyd at 20 diwrnod	Mae hyn yn ymwneud â symudiad a stocio pysgod (Adran 30 ar gyfer stocio, A27A ar gyfer y defnydd o offerynnau ar wahân i wialen neu linyr).
Trwyddedau morol	<p>Chwe wythnos am gais i ymgymryd â samplau cip dyfnforol</p> <p>Pedwar mis am gais am Drwydded Forol safonol</p> <p>Sylwer y gallai ceisiadau Asesiad Effaith Amgylcheddol a cheisiadau cymhleth gymryd amser sylweddol hwy</p>	<p>Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn mynnu bod angen trwydded ar gyfer unrhyw waith adeiladu, addasu neu wella yn, ar, dan neu dros wely'r môr a dyddodi neu waredu unrhyw sylwedd o wely'r môr yn defnyddio cerbyd neu long. Mae pellter y gwaith y gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwydded ar ei gyfer yn is na chyrhaeddiad cymedr penllanw mawr ac allan i'r môr hyd at 12 morfilltir. Ymysg yr enghreifftiau mae carthu, adeiladu pontydd, adeiladu amddiffynfeydd llifogydd, cymryd samplau cip dyfnforol a defnyddio dyfeisiadau ynni morol.</p> <p>Cydsyniadau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru sydd fel arfer yn gysylltiedig â thrwyddedau morol yw cydsyniadau SoDdGA, trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a thrwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd.</p>
Cydsyniad SoDdGA (i awdurdodau A28G sy'n cynnal gwaith)	28 diwrnod	Mae Adran 28 (H) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn mynnu bod cyrff statudol (awdurdodau Adran 28G) yn cael <u>cydsyniad</u> Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni gweithrediad a all niweidio SoDdGA (boed o fewn y SoDdGA neu beidio). Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthod cydsyniad neu'n gorfodi amodau, mae'n rhaid i'r awdurdod esbonio sut mae wedi derbyn y cyngor a rhaid iddo leihau'r difrod a'i adfer ble y bo'n ymarferol.
Trwydded Tynnu Dŵr, Cronni Dŵr, Pŵer Hydrodrydanol, Trosglwyddo Dŵr, Trwydded Dros Dro	Hyd at bedwar mis	Cydsyniadau dan Adran 24, 25, 32, 79A, 109 a pharagraffau 5 a 6 Atodlen 25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), Deddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Dŵr 2003. Yn aml yn cael eu cysylltu â thrwyddedau cronni dŵr a thrwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd. Weithiau mae angen cymeradwyaeth ysgol bysgod neu, os yw capasiti unrhyw gronfa ddŵr sy'n bodoli'n barod neu arfaethedig wedi ei chynllunio i ddal, neu'n gallu dal, dros 25,000 metr ciwbig o ddŵr uwchben lefel naturiol y tir sydd gerllaw'r gronfa ddŵr, yna mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn berthnasol. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu hadeiladu, eu haddasu, eu harchwilio, eu gadael a'u terfynu. Bydd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn lleihau capasiti cronfa ddŵr a reoleiddir i 10,000 metr ciwbig a bydd yn cyflwyno

		cyfrifoldebau eraill. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyngori'r cwsmer i fonitro'r newidiadau hyn gan eu bod yn cael eu gorchymyn gan lywodraeth.
Trwyddedau Cwmpo Coed	50 diwrnod gwaith	Gofyniad dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 (fel y'i diwygiwyd) i gael trwydded cyn cwmpo coed sy'n tyfu. Bydd angen i bawb sy'n ymwneud â chwmpo coed gael trwydded neu wirio a ydynt yn destun eithriad. Caniatadau eraill a gysylltir yn aml â'r gweithgaredd hwn yw cydsyniadau SoDdGA a thrwyddedau Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.
Penderfyniadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth)	28 diwrnod gwaith	Gofyniad dan Reoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999. Mae hyn yn berthnasol i bedwar 'prosiect' (coedwigo, datgoedwigo, chwareli coedwig, ffyrdd/llwybrau coedwig). Nid oes unrhyw gydsyniadau cysylltiedig arferol eraill. Bydd y gofyniad hwn yn ymwneud yn bennaf â phrosiectau daearol ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol	30 diwrnod gwaith	Caiff y rhain eu rhoi dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 lle mae gan goed bla neu glefyd sydd wedi ei roi mewn cwarantîn. Caniatadau eraill a gysylltir yn aml â'r gweithgaredd hwn yw cydsyniadau SoDdGA a thrwyddedau rhywogaeth.
Cludwyr, Broceriaid a Delwyr Gwastraff	Cofrestru wrth dalu	Mae system gofrestru haen is ar waith yn awr ar gyfer "unigolion penodedig". Amlinellir hyn yn Rhan 8 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae hon yn system gofrestru am ddim.
Parth Gwarchod Afon Dyfrdwy	Pedwar mis	Dan Reoliadau Parth Diogelu Dŵr (Dalgyllch Afon Dyfrdwy) (Darpariaethau Gweithdrefnol a Darpariaethau Eraill) 1999, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rhoi caniatâd i gadw a defnyddio sylweddau a reolir ar safleoedd yn nalgyllch dŵr croyw Afon Dyfrdwy.